# ***BLAEN-GYNLLUN - CABINET /CYNGOR***

AM Y CYFNOD 1 HYDREF 2022 HYD AT 29 RHAGFYR 2023

| **Pwnc** | **Crynodeb o'r Adroddiad** | **Y Corff Gwneud Penderfyniadau a Dyddiadau** | **A yw wedi'i eithrio?** | **Yr Aelod Cabinet sy'n gyfrifol am y Portffolio (os yn berthnasol)** | **Cyfarwyddwr Cyfrifol**<br><br>**Awdur yr Adroddiad** |
|---|---|---|---|---|---|
| ADRODDIAD BLYNYDDOL CYFARWYDDWR STATUDOL Y GWASANAETHAU GOFAL CYMDEITHASOL 2021/2 | Hwn yw'r adroddiad blynyddol gan Gyfarwyddwr y Gwasanaethau Cymdeithasol ynghylch perfformiad ein Gwasanaethau Gofal Cymdeithasol yn y sir. Mae'n nodi'r heriau yn ystod blwyddyn na welwyd ei thebyg o'r blaen oherwydd COVID 19 ac yn tynnu sylw at y meysydd hynny sydd i'w datblygu yn y flwyddyn bresennol. Mae'n ymwneud â pherfformiad ar gyfer y flwyddyn 2021/22. | Cabinet<br>17 Hydref 2022 | Nac ydy | Y Cynghorydd Jane Tremlett, Aelod Cabinet | Cyfarwyddwr Cymunedau<br>Jake Morgan - Cyfarwyddwr Gwasanaethau Cymunedol, jakemorgan@sirgar.gov.uk |
| POLISI BAGIAU TYWOD 2022 | Mae polisi bagiau tywod Cyngor Sir Caerfyrddin wedi bod ar waith ers blynyddoedd lawer heb newid sylweddol. Fodd bynnag, wrth i ddwyster ac amlder stormydd gynyddu ac wrth i lifogydd gynyddu, ynghyd â chyfyngiadau ar y gyllideb a phwysau staffio, mae angen addasu a diwygio polisïau'r Cyngor yn unol â hynny. | Cabinet<br>31 Hydref 2022 | Nac ydy | Aelod Cabinet dros Wasanaethau Trafnidiaeth, Gwastraff a Seilwaith | Cyfarwyddwr yr Amgylchedd<br>Ben Kathrens, Rheolwr Amddiffyn rhag Llifogydd a Diogelu'r Arfordir<br>bkathrens@sirgar.gov.uk |

Yn cael ei diweddaru yn fisol.

| | | | | | |
|---|---|---|---|---|---|
| | Oherwydd hynny, yn unol ag ymchwil newydd, arferion gorau, polisi cenedlaethol o ran rheoli risg llifogydd a'n ffyrdd gwell ein hunain o weithio, mae polisi bagiau tywod newydd wedi cael ei ddatblygu. Mae'r polisi newydd yn ceisio grymuso ac addysgu trigolion Sir Gaerfyrddin o ran rheoli risg llifogydd wrth gyfleu ein blaenoriaethau yn glir a'r safonau gwasanaeth y gallwn eu darparu. Mae'r polisi felly'n cyfuno cyngor ar fagiau tywod fel yn yr hen bolisi (pennod 2) â gwybodaeth am ddewisiadau eraill yn lle bagiau tywod (pennod 3).<br>Mae'r ddogfen bolisi newydd yn dechrau drwy nodi camau ymarferol y gall perchnogion eiddo eu cymryd i reoli eu risg llifogydd eu hunain ac yn gorffen drwy egluro sut y gallant roi gwybod am lifogydd ac i ba Awdurdod Rheoli Risg. | | | | |
| ADOLYGIAD ÔL-16 GAN GYNNWYS CYMWYSTERAU GALWEDIGAETHOL A'R RHAI NAD YDYNT MEWN | | Cabinet<br>17 Hydref 2022 | Nac ydy | Aelod Cabinet Dros Addysg a'r Gymraeg | Y Cyfarwyddwr Addysg a Phlant<br>Aeron Rees, Pennaeth Cwricwlwm a Llesiant<br>jarees@sirgar.gov.uk |

Yn cael ei diweddaru yn fisol.

| | | | | | |
|---|---|---|---|---|---|
| ADDYSG, CYFLOGAETH NA HYFFORDDIANT | | | | | |
| ADRODDIAD LLIFOGYDD A19 (LLIFOGYDD CYDWELI HYDREF 2021) | Mae ymchwiliad wedi'i gynnal gan Gyngor Sir Caerfyrddin fel yr Awdurdod Llifogydd Lleol Arweiniol mewn ymateb i'r llifogydd yng Nghydweli ar 4 a 20 Hydref 2021.<br>Mae'r adroddiad hwn yn grynodeb o'r ymchwiliad ac mae'n cynnwys gwybodaeth berthnasol sydd ei hangen i fodloni'r gofynion statudol a osodir ar yr Awdurdod.<br>Er mwyn rheoli'r risg llifogydd yng Nghydweli yn y tymor byr a'r tymor canolig, mae'r adroddiad wedi argymell 28 o gamau gweithredu i'w cyflawni gan nifer o dimau mewnol ac Awdurdodau Rheoli Risg allanol.<br>Ymgynghorwyd ynghylch yr adroddiad â'r holl uwch-reolwyr mewnol ac allanol sydd â chamau gweithredu yn ystod mis Awst 2022. | Cabinet<br>17 Hydref 2022 | Nac ydy | Aelod Cabinet dros Wasanaethau Trafnidiaeth, Gwastraff a Seilwaith | Cyfarwyddwr yr Amgylchedd<br>Marie Kathrens, Cynorthwyydd Technegol (Gwasanaethau Stryd)<br>mkathrens@sirgar.gov.uk |

Yn cael ei diweddaru yn fisol.

| | | | | | |
|---|---|---|---|---|---|
| CYMERADWYO PARTNERIAETHAU GOFAL GORLLEWIN CYMRU | Mae'r Strategaeth hon wedi'i llunio mewn partneriaeth rhwng swyddogion y 3 Awdurdod Lleol, y Bwrdd Iechyd a phartneriaid yn y trydydd sector yn ogystal â phobl â dementia, eu gofalwyr, ac aelodau o'r teulu. Mae'n cefnogi sawl amcan allweddol yn y Cynllun Corfforaethol, a'n hamcan llesiant i 'gefnogi pobl hŷn er mwyn iddynt heneiddio'n dda a chadw'u hurddas a'u hannibyniaeth wrth wneud hynny', a bydd cymeradwyo'r strategaeth yn ein galluogi i ddarparu gwasanaethau yn unol ag anghenion ein cymuned. | Cabinet<br>17 Hydref 2022 | Nac ydy | Y Cynghorydd Jane Tremlett, Aelod Cabinet | Cyfarwyddwr Cymunedau<br><br>Alex Williams, Pennaeth Gwasanaethau Integredig<br>AlexWilliams@sirgar.gov.uk |
| ASESIAD O ANGHENION Y BOBLOGAETH AC ADRODDIAD YNGHYLCH SEFYDLOGRWYDD Y FARCHNAD | O dan Ran 2 o Ddeddf Gwasanaethau Cymdeithasol a Llesiant (Cymru) 2014, mae'n ofynnol i'r Bwrdd Iechyd a'r Awdurdodau Lleol lunio Asesiad Poblogaeth. Y Bwrdd Partneriaeth Ranbarthol sy'n ymgymryd â'r gwaith ac mae'n cael ei gydlynu gan Dîm Partneriaeth Gofal Gorllewin Cymru. Goruchwyliwyd y gwaith hwn gan Grŵp y Rhaglen Gomisiynu Ranbarthol gyda'r holl bartneriaid yn goruchwylio a chraffu ar y gwaith. Darparwyd y wybodaeth ddiweddaraf yn | Cabinet<br>17 Hydref 2022 | Nac ydy | Y Cynghorydd Jane Tremlett, Aelod Cabinet | Cyfarwyddwr Cymunedau<br>Kelvin Barlow - Uwch-reolwr - Anghenion Cymhleth a Phontio<br>KelvinBarlow@sirgar.gov.uk |

| | | | | | |
|---|---|---|---|---|---|
| | rheolaidd i'r Bwrdd Partneriaeth Ranbarthol.<br>Bydd yr adroddiadau hyn yn llywio Cynllun Ardal Gorllewin Cymru, a thrwy hyn yn llywio'r bwriadau comisiynu lleol a rhanbarthol. | | | | |
| RHEOLI PERFFORMIAD CHWARTER 1 2022/23 (1 EBRILL HYD 30 MEHEFIN 2022) | Mae dyletswydd gyffredinol ar awdurdodau i wneud trefniadau i fonitro perfformiad. Mae angen inni ddangos i ddinasyddion, aelodau a rheoleiddwyr sut mae perfformiad yn cael ei reoli a sut mae ymyraethau priodol yn cael eu gweithredu | Cabinet<br>31 Hydref 2022 | Nac ydy | Aelod Cabinet dros Drefniadaeth a'r Gweithlu | Y Prif Weithredwr<br><br>Nicola Evans, Rheolwr Cymorth Busnes<br>njevans@sirgar.gov.uk |
| Y WYBODAETH DDIWEDDARAF AM RAGLEN GYFALAF 2022/23 | Darparu'r wybodaeth ddiweddaraf o ran sefyllfa'r gyllideb ar gyfer rhaglen gyfalaf 2022/23 ar 31 Awst, 2022. | Cabinet<br>14 Tach 2022 | Nac ydy | Aelod Cabinet dros Adnoddau | Cyfarwyddwr y Gwasanaethau Corfforaethol<br><br>Randal Hemingway, Pennaeth y Gwasanaethau Ariannol<br>RHemingway@sirgar.gov.uk |
| ADRODDIAD MONITRO YNGHYLCH CYLLIDEB REFENIW Y CYNGOR | Rhoi'r wybodaeth ddiweddaraf i'r Cabinet am y sefyllfa gyllidebol fel yr oedd ar 31 Awst 2022, o ran 2022/23. | Cabinet<br>14 Tach 2022 | Nac ydy | Aelod Cabinet dros Adnoddau | Cyfarwyddwr y Gwasanaethau Corfforaethol<br><br>Randal Hemingway, Pennaeth y Gwasanaethau Ariannol<br>RHemingway@sirgar.gov.uk |

Yn cael ei diweddaru yn fisol.

| | | | | | |
|---|---|---|---|---|---|
| ADRODDIAD CANOL BLWYDDYN YNGHYLCH DANGOSYDDION DARBODAETH A RHEOLI'R TRYSORLYS RHWNG 1 EBRILL 2022 A 30 MEDI 2022 | Darparu'r wybodaeth ddiweddaraf am weithgareddau rheoli'r trysorlys o 1 Ebrill 2022 hyd at 30 Medi 2022 | Cabinet<br>28 Tach 2022 | Nac ydy | Aelod Cabinet dros Adnoddau | Cyfarwyddwr y Gwasanaethau Corfforaethol<br><br>Anthony Parnell, Rheolwr y Trysorlys a Buddsoddiadau Pensiwn<br>aparnell@sirgar.gov.uk |
| ADRODDIAD BLYNYDDOL Y CYNLLUN RHEOLI ASEDAU PRIFFYRDD | Mae'r Adroddiad Blynyddol yn rhoi'r wybodaeth ddiweddaraf am gyflwr a pherfformiad y rhwydwaith priffyrdd ynghyd â gwybodaeth ariannol gysylltiedig.<br><br>Mae'r adroddiad yn cynnwys rhagolygon ynghylch cyflwr ffyrdd ar gyfer senarios buddsoddi ynghyd â gwybodaeth fanwl am ddadansoddi tueddiadau cyflwr ffyrdd cerbydau, strwythurau priffyrdd a goleuadau cyhoeddus.<br><br>Mae'r adroddiad yn cael ei gyflwyno i'r Pwyllgor Craffu fel arfer | Cabinet<br>14 Tach 2022 | Nac ydy | Dirprwy Arweinydd ac Aelod Cabinet dros Gartrefi, Aelod Cabinet dros Wasanaethau Trafnidiaeth, Gwastraff a Seilwaith | Cyfarwyddwr yr Amgylchedd<br><br>Richard Waters, Rheolwr Rheolwr Gwasanaethau Priffyrdd a Thrafnidiaeth<br>RWaters@sirgar.gov.uk |

| | | | | | |
|---|---|---|---|---|---|
| LLAWLYFR CYNNAL A CHADW Y CYNLLUN RHEOLI ASEDAU PRIFFYRDD | Mae'r Llawlyfr Cynnal a Chadw yn cael ei ddatblygu fel portffolio o bolisïau unigol ar gyfer cynnal a chadw a rheoli priffyrdd gan fabwysiadu dull sy'n seiliedig ar risg ac yn unol â chôd ymarfer cenedlaethol.<br><br>Mae'r pwnc sy'n cael ei gyflwyno yn ymdrin â rheoli systemau draenio priffyrdd. | Cabinet<br>14 Tach 2022 | Nac ydy | Aelod Cabinet dros Wasanaethau Trafnidiaeth, Gwastraff a Seilwaith, Dirprwy Arweinydd ac Aelod Cabinet dros Gartrefi | Cyfarwyddwr yr Amgylchedd<br>Richard Waters, Rheolwr Gwasanaethau Priffyrdd a Thrafnidiaeth<br>RWaters@sirgar.gov.uk |
| YR AIL CDLI DIWYGIEDIG ADNEUO | Ystyried a chymeradwyo ar gyfer ymgynghoriad cyhoeddus cynnwys yr ail Gynllun Datblygu Lleol Diwygiedig Adneuo yn cynnwys: y datganiad ysgrifenedig (polisïau strategol a phenodol); a'r Mapiau Mewnosod sy'n nodi lleoliad a'r math o ddatblygiadau ar gyfer y cyfnod hyd at 2033 yn ogystal â chynigion amgylcheddol a chyfyngiadau eraill. | Cabinet<br>14 Tach 2022 | Nac ydy | Aelod Cabinet dros Faterion Gwledig a Pholisi Cynllunio | Cyfarwyddwr yr Amgylchedd<br><br>Ian R Llewelyn, Rheolwr Blaen-gynllunio<br>IRLlewelyn@sirgar.gov.uk |
| STRATEGAETH HAMDDEN | Ymgynghori ar gynnwys Strategaeth 10 mlynedd newydd ar gyfer Hamdden, Diwylliant a Hamdden Awyr Agored yn y Sir. | Cabinet<br>28 Tach 2022 | Nac ydy | Y Cynghorydd Gareth John - Aelod Cabinet | Cyfarwyddwr Cymunedau<br><br>Ian Jones, Pennaeth Hamdden<br>IJones@sirgar.gov.uk |

| | | | | | |
|---|---|---|---|---|---|
| CANLLAW DYLUNIO DRAENIO PRIFFYRDD | Canllawiau dylunio atodol ar gyfer datblygwyr sy'n cynnig cysylltu pibellau draenio dŵr wyneb datblygiadau newydd â'r system draenio priffyrdd. Mae'r canllaw hefyd yn nodi taliadau ar gyfer asesu ceisiadau a ffioedd cysylltu. | Cabinet<br>28 Tach 2022 | Nac ydy | Dirprwy Arweinydd ac Aelod Cabinet dros Gartrefi, Aelod Cabinet dros Wasanaethau Trafnidiaeth, Gwastraff a Seilwaith | Cyfarwyddwr yr Amgylchedd<br>Steve Pilliner, Pennaeth Trafnidiaeth a Phriffyrdd<br>SGPilliner@sirgar.gov.uk |
| AILDDOSBARTHU'R A476 CROSS HANDS | Yn dilyn cwblhau Ffordd Gyswllt Economaidd Cross Hands a gynlluniwyd ar gyfer Medi 2022 cynigir y bydd y ffordd newydd yn cael ei dosbarthu fel yr A476 a bydd rhan o ffordd bresennol yr A476 yn cael ei dosbarthu fel ffordd B. Mae mân addasiadau eraill wedi'u cynnwys hefyd. | Cabinet<br>28 Tach 2022 | Nac ydy | Aelod Cabinet dros Wasanaethau Trafnidiaeth, Gwastraff a Seilwaith | Cyfarwyddwr yr Amgylchedd<br><br>Steve Pilliner, Pennaeth Trafnidiaeth a Phriffyrdd<br>SGPilliner@sirgar.gov.uk |
| STRATEGAETH CYNGOR SIR CAERFYRDDIN YNGHYLCH COED A CHOETIROEDD | Mae'r strategaeth yn adlewyrchu cyfrifoldebau Cyngor Sir Caerfyrddin am goed a choetiroedd. Mae'n nodi sut y mae'r Cyngor yn rheoli'r coed a'r coetiroedd y mae'n gyfrifol amdanynt, ble a pham yr hoffai blannu mwy o goed a choetir, a'r camau y gall eu cymryd i wneud hyn. | Cabinet<br>28 Tach 2022 | Nac ydy | Aelod Cabinet dros Newid Hinsawdd, Datgarboneiddio a Chynaliadwyedd, Dirprwy Arweinydd ac Aelod Cabinet dros Gartrefi | Cyfarwyddwr yr Amgylchedd<br><br>Rhodri Griffiths, Pennaeth Lle a Chynaliadwyedd<br>RDGriffiths@sirgar.gov.uk |
| ADRODDIAD BLYNYDDOL CYNGOR SIR CAERFYRDDIN AR GYFER 2021/22 | O dan Fesur Llywodraeth Leol (Cymru) 2009 mae'n ofynnol inni gyhoeddi Adroddiad Blynyddol ar berfformiadau blaenorol | Cabinet<br>12 Rhagfyr 2022 | Nac ydy | Arweinydd y Cyngor | Y Prif Weithredwr<br><br>Nicola Evans, Rheolwr Cymorth Busnes<br>njevans@sirgar.gov.uk |

| | | | | | |
|---|---|---|---|---|---|
| | erbyn diwedd mis Hydref bob blwyddyn. O dan Ddeddf Llesiant Cenedlaethau'r Dyfodol (Cymru) 2015 mae'n ofynnol inni gyhoeddi Adroddiad Blynyddol ynghylch ein Hamcanion Llesiant.<br>Mae'r adroddiad hwn yn bodloni'r ddau ofyniad hyn mewn un ddogfen. | | | | |
| STRATEGAETH RHAGLEN CYMORTH TAI 2022-26 | Mae'r strategaeth hon yn nodi ein blaenoriaethau a blaenoriaethau ein hasiantaethau partner ar gyfer atal digartrefedd, rhyddhad digartrefedd a gwasanaethau cymorth cysylltiedig â thai dros y pedair blynedd nesaf (2022-26) i helpu ein dinasyddion mwyaf agored i niwed i fyw fel rhan o'u cymunedau. | Cabinet<br>12 Rhagfyr 2022 | Nac ydy | Dirprwy Arweinydd a'r Aelod Cabinet dros Gartrefi | Cyfarwyddwr Cymunedau<br><br>Christine Harrison, Pennaeth Comisiynu Strategol ar y Cyd<br>Chris.harrison@pembrokeshire.gov.uk |
| STRATEGAETH GORFFORAETHOL | Diweddaru ein Strategaeth Gorfforaethol a'n Hamcanion Llesiant | Cabinet<br>12 Rhagfyr 2022 | Nac ydy | Arweinydd y Cyngor | Y Prif Weithredwr<br><br>Nicola Evans, Rheolwr Cymorth Busnes<br>njevans@sirgar.gov.uk |
| SYLFAEN Y DRETH GYNGOR AM 2023/24 | Bod y Cabinet yn ystyried cyfrifiadau Sylfaen y Dreth Gyngor ac yn pennu Sylfaen y Dreth Gyngor mewn perthynas â'r flwyddyn ariannol 2023-24 | Cabinet<br>12 Rhagfyr 2022 | Nac ydy | Aelod Cabinet dros Adnoddau | Cyfarwyddwr y Gwasanaethau Corfforaethol |

Yn cael ei diweddaru yn fisol.

| | | | | | |
|---|---|---|---|---|---|
| | | | | | Ann Thomas, Rheolwr y Gwasanaethau Refeniw |
| CYNNIG AMGEN I ADDYSG AWYR AGORED | Pwrpas yr adroddiad hwn yw adolygu'r hyn a gynigir ar hyn o bryd gan Gyngor Sir Caerfyrddin o ran Addysg Awyr Agored ac archwilio opsiynau ar gyfer gwasanaeth wedi'i ail-fodelu o fewn yr adnoddau presennol. | Cabinet<br>12 Rhagfyr 2022 | Nac ydy | Aelod Cabinet dros Adfywio, Hamdden, Diwylliant a Thwristiaeth | Cyfarwyddwr Cymunedau<br><br>Ian Jones, Pennaeth Hamdden<br>IJones@sirgar.gov.uk |
| CYNLLUN GOSTYNGIADAU'R DRETH GYNGOR | Diben yr adroddiad hwn yw gofyn am fabwysiadu'n ffurfiol gynllun Gostyngiadau'r Dreth Gyngor ar gyfer 2023/24 | Cabinet<br>12 Rhagfyr 2022 | Nac ydy | Aelod Cabinet dros Adnoddau | Cyfarwyddwr y Gwasanaethau Corfforaethol<br><br>Ann Thomas, Rheolwr y Gwasanaethau Refeniw |
| STRATEGAETH SEILWAITH GWEFRU CERBYDAU TRYDAN, ADOLYGIAD DEUDDEG MIS | Mae'r adroddiad yn rhoi'r wybodaeth ddiweddaraf am gynnydd y Strategaeth Seilwaith Gwefru Cerbydau Trydan. | Cabinet<br>12 Rhagfyr 2022 | Nac ydy | Aelod Cabinet dros Wasanaethau Trafnidiaeth, Gwastraff a Seilwaith | Cyfarwyddwr yr Amgylchedd<br><br>Steve Pilliner, Pennaeth Trafnidiaeth a Phriffyrdd<br>SGPilliner@sirgar.gov.uk |
| STRATEGAETH WASTRAFF | Mae'r adroddiad hwn yn ymdrin â pholisïau manwl sy'n cael eu rhoi ar waith o fewn swyddogaethau strategol a gweithredol y gwasanaeth yn unol â'r newidiadau dros dro (2022/2023) i'r drefn casglu gwastraff wrth ymyl y ffordd. | Cabinet<br>12 Rhagfyr 2022 | Nac ydy | Aelod Cabinet dros Wasanaethau Trafnidiaeth, Gwastraff a Seilwaith | Cyfarwyddwr yr Amgylchedd<br><br>Daniel John, Rheolwr y Gwasanaethau Amgylcheddol<br>DWJohn@sirgar.gov.uk |

Yn cael ei diweddaru yn fisol.

| | | | | | |
|---|---|---|---|---|---|
| | Mae'n rhoi'r newidiadau sydd ar ddod yn eu cyd-destun yn dilyn strategaeth wastraff 2021-2025 gan ddangos y llwybr arfaethedig i wella cyfraddau ailgylchu a mabwysiadu dull didoli wrth ymyl y ffordd Llywodraeth Cymru yn Sir Gaerfyrddin. | | | | |
| ADRAN 106 (RHWYMEDIGAETHAU CYNLLUNIO) - Y WYBODAETH DDIWEDDARAF | Mae'r adroddiad yn rhoi'r wybodaeth ddiweddaraf am gasglu a defnyddio rhwymedigaethau cynllunio (y cyfeirir atynt yn aml fel cytundebau Adran 106 a/neu gyfraniadau datblygwyr) wrth liniaru effeithiau datblygiad.<br><br>Mae'n rhoi'r wybodaeth ddiweddaraf am yr arian sy'n cael ei gadw ac sydd wedi'i ymrwymo - yr incwm a'r gwariant a'r arian sydd ar gael, yn ogystal â'r prosesau presennol | Cabinet<br>12 Rhagfyr 2022 | Nac ydy | Aelod Cabinet dros Faterion Gwledig a Pholisi Cynllunio | Cyfarwyddwr yr Amgylchedd<br><br>Rhodri Griffiths, Pennaeth Lle a Chynaliadwyedd<br>RDGriffiths@sirgar.gov.uk |
| RHEOLI PERFFORMIAD CHWARTER 2 2022/23 (1 GORFFENNAF HYD 30 MEDI 2022) | Mae dyletswydd gyffredinol ar awdurdodau i wneud trefniadau i fonitro perfformiad. Mae angen inni ddangos i ddinasyddion, aelodau a rheoleiddwyr sut mae perfformiad yn cael ei reoli a sut mae ymyraethau priodol yn cael eu gweithredu | Cabinet<br>16 Ionawr 2023 | Nac ydy | Aelod Cabinet dros Drefniadaeth a'r Gweithlu | Y Prif Weithredwr<br><br>Noelwyn Daniel, Pennaeth TGCh a Pholisi Corfforaethol<br>ndaniel@sirgar.gov.uk |

| | | | | | |
|---|---|---|---|---|---|
| | | | | | |
| STRATEGAETH CYLLIDEB REFENIW 2023/24 HYD AT 2025/26 | Rhoi trosolwg i'r Cabinet o'r materion yn ymwneud â'r gyllideb a'r rhagolygon ar gyfer y blynyddoedd i ddod | Cabinet<br>16 Ionawr 2023 | Nac ydy | Y Cynghorydd Alun Lenny - Aelod Cabinet | Cyfarwyddwr y Gwasanaethau Corfforaethol<br><br>Randal Hemingway, Pennaeth y Gwasanaethau Ariannol<br>RHemingway@sirgar.gov.uk |
| RHAGLEN GYFALAF BUM MLYNEDD (CRONFA'R CYNGOR) 2023/24 - 2027/28 | Galluogi'r awdurdod i gytuno ar raglen gyfalaf bum mlynedd 2023/24 i 2027/28 | Cabinet<br>16 Ionawr 2023 | Nac ydy | Y Cynghorydd Alun Lenny - Aelod Cabinet | Cyfarwyddwr y Gwasanaethau Corfforaethol<br><br>Chris Moore - Cyfarwyddwr y Gwasanaethau Corfforaethol<br>cmoore@sirgar.gov.uk |
| HUNANWERTHUSO A DATA YSGOLION | Mae hunanwerthuso'n rhan annatod o'r broses cynllunio busnes. Mae Addysg a Gwasanaethau Plant wedi addasu ei ddull drwy gael barn o bersbectif ehangach. | Cabinet<br>16 Ionawr 2023 | Nac ydy | Aelod Cabinet Dros Addysg a'r Gymraeg | Y Cyfarwyddwr Addysg a Phlant<br><br>Aeron Rees, Pennaeth Cwricwlwm a Llesiant<br>jarees@sirgar.gov.uk |
| CEFNOGAETH I DDATBLYGU'R CWRICWLWM AR DRAWS YSGOLION SIR GAERFYRDDIN - | Mae'r adroddiad hwn yn rhoi trosolwg o'r gefnogaeth a gynigir i'n hysgolion mewn perthynas â gweithredu Cwricwlwm Cymru, drwy gyfrwng Partneriaeth a'r | Cabinet<br>16 Ionawr 2023 | Nac ydy | Aelod Cabinet Dros Addysg a'r Gymraeg | Y Cyfarwyddwr Addysg a Phlant |

| | | | | | |
|---|---|---|---|---|---|
| PARTNERIAETH A'R ADRAN ADDYSG A GWASANAETHAU PLANT | adran Addysg a Gwasanaethau Plant. Yn ogystal, mae'r adroddiad yn amlinellu effaith y gefnogaeth hon a'r arfer effeithiol sy'n datblygu yn yr awdurdod. | | | | Elin Forsyth, Prif Ymgynghorydd Her EMForsyth@sirgar.gov.uk |
| Y WYBODAETH DDIWEDDARAF AM RAGLEN GYFALAF 2022/23 | Darparu'r wybodaeth ddiweddaraf o ran sefyllfa derfynol y gyllideb ar gyfer rhaglen gyfalaf 2022/23 ar 31 Hydref, 2022. | Cabinet 16 Ionawr 2023 | Nac ydy | Aelod Cabinet dros Adnoddau | Cyfarwyddwr y Gwasanaethau Corfforaethol<br><br>Randal Hemingway, Pennaeth y Gwasanaethau Ariannol RHemingway@sirgar.gov.uk |
| ADRODDIAD MONITRO YNGHYLCH CYLLIDEB REFENIW Y CYNGOR | Rhoi'r wybodaeth ddiweddaraf i'r Cabinet am y sefyllfa gyllidebol fel yr oedd ar 31 Hydref 2022, o ran 2022/23. | Cabinet 16 Ionawr 2023 | Nac ydy | Aelod Cabinet dros Adnoddau | Cyfarwyddwr y Gwasanaethau Corfforaethol<br><br>Randal Hemingway, Pennaeth y Gwasanaethau Ariannol RHemingway@sirgar.gov.uk |
| ARFARNIADAU O ARDALOEDD CADWRAETH | Mae'r adroddiad hwn yn nodi'r gwaith sy'n cael ei wneud i adolygu deg Ardal Gadwraeth ddynodedig ar draws y Sir. Mae'n nodi canlyniad yr adolygiad a'r ymarfer ymgynghori dilynol gan gynnwys y canlynol: | Cabinet 16 Ionawr 2023 | Nac ydy | Aelod Cabinet dros Faterion Gwledig a Pholisi Cynllunio | Cyfarwyddwr yr Amgylchedd<br><br>Rhodri Griffiths, Pennaeth Lle a Chynaliadwyedd RDGriffiths@sirgar.gov.uk |

| | | | | | |
|---|---|---|---|---|---|
| | • Arfarniad cymeriad;<br>• Adolygiad o ffiniau a<br>• Chynllun Rheoli.<br><br>Mae'r adroddiad wrth nodi'r uchod yn nodi canlyniad yr ymarfer ymgynghori cyhoeddus a'r camau nesaf gan gynnwys y prosesau sydd eu hangen i ddiwygio unrhyw un o ddynodiadau'r Ardal Gadwraeth. | | | | |
| CYNLLUN BUSNES AC ADRODDIAD CYNNYDD CWM | Mae'r adroddiad hwn yn cyflwyno cynllun busnes blynyddol CWM Environmental, gan nodi'r camau a'r amcanion blynyddol a'r cynnydd y mae'r cwmni wedi'i wneud | Cabinet<br>16 Ionawr 2023 | Nac ydy | Dirprwy Arweinydd ac Aelod Cabinet dros Gartrefi, Aelod Cabinet dros Wasanaethau Trafnidiaeth, Gwastraff a Seilwaith | Cyfarwyddwr yr Amgylchedd<br><br>Daniel John, Rheolwr y Gwasanaethau Amgylcheddol<br>DWJohn@sirgargov.uk |
| NEWIDIADAU LLYWODRAETH CYMRU I DERFYNAU CYFLYMDER MEWN DEDDFWRIAETH (20MYA) | Bydd Llywodraeth Cymru yn cyflwyno deddfwriaeth newydd ym mis Medi 2023 i leihau'r terfyn cyflymder gorfodol ar ffyrdd cyfyngedig (gyda goleuadau stryd), o 30mya i 20mya.<br><br>Mae'r adroddiad yn rhoi'r wybodaeth ddiweddaraf am y paratoadau ar gyfer y ddeddfwriaeth newydd | Cabinet<br>16 Ionawr 2023 | Nac ydy | Aelod Cabinet dros Wasanaethau Trafnidiaeth, Gwastraff a Seilwaith | Cyfarwyddwr yr Amgylchedd<br><br>Richard Waters, Rheolwr Gwasanaethau Priffyrdd a Thrafnidiaeth<br>RWaters@sirgar.gov.uk |

| | | | | | |
|---|---|---|---|---|---|
| STRATEGAETH FARCHOGAETH | Mae Cynllun Gwella Hawliau Tramwy Sir Gaerfyrddin 2019-2029 wedi'i lunio a'i gyhoeddi yn unol ag adran 60 o Ddeddf Cefn Gwlad a Hawliau Tramwy (2000). Mae'r Cynllun Gwella Hawliau Tramwy yn cyflwyno cynllun Sir Gaerfyrddin ar gyfer rheoli, datblygu, a gwella rhwydwaith Hawliau Tramwy Cyhoeddus y Sir yn strategol hyd at 2029.<br><br>Yn ystod yr ymgynghoriad â'r Fforwm Mynediad Lleol, nododd y Fforwm angen i'r awdurdod lleol ymrwymo i lunio Strategaeth Farchogaeth Sir Gaerfyrddin i gydnabod y cyfleoedd a'r heriau o ran mynediad ar gyfer marchogaeth a gyrru car a cheffyl ledled y Sir.<br><br>Felly mae Strategaeth Farchogaeth i 'hyrwyddo a datblygu rhwydwaith hygyrch at ddefnydd marchogol' wedi cael ei chyhoeddi yng Nghynllun Gwella Hawliau Tramwy Sir Gaerfyrddin 2019-2029.<br><br>Mae'r adroddiad yn nodi'r cynnig i fabwysiadu Strategaeth Farchogaeth ar gyfer Sir Gaerfyrddin. | Cabinet<br>13 Chwefror 2023 | Nac ydy | Aelod Cabinet dros Wasanaethau Trafnidiaeth, Gwastraff a Seilwaith | Cyfarwyddwr yr Amgylchedd<br>Steve Pilliner, Pennaeth Trafnidiaeth a Phriffyrdd<br>SGPilliner@sirgar.gov.uk |

| | | | | | |
|---|---|---|---|---|---|
| | | | | | |
| GORCHYMYN DIOGELU MANNAU AGORED CYHOEDDUS - CRYFHAU MESURAU RHEOLI CYSYLLTIEDIG Â CHŴN | Mae'r adroddiad yn nodi canlyniadau ymarfer ymgysylltu a gynhaliwyd ynghylch yr opsiynau posibl o ran Gorchmynion Gwarchod Mannau Agored Cyhoeddus cryfach ar gyfer rheoli cŵn yn Sir Gaerfyrddin. | Cabinet<br>20 Ionawr 2023 | Nac ydy | Aelod Cabinet dros Wasanaethau Trafnidiaeth, Gwastraff a Seilwaith | Cyfarwyddwr yr Amgylchedd<br><br>Daniel John, Rheolwr Gwasanaethau Amgylcheddol<br>DWJohn@sirgargov.uk |
| POLISI GRAFFITI | Mae'r polisi hwn yn amlinellu'r broses ar gyfer ymdrin â graffiti ar dir cyhoeddus a phreifat. Mae'n nodi dull cydgysylltiedig ynghylch graffiti ar dir cyhoeddus, adeiladau'r cyngor ac ar dir preifat lle mae graffiti yn cael effaith weledol ar fannau cyhoeddus. Mae'n nodi'r blaenoriaethau o ran gwaredu graffiti, dulliau, amserlen a rhwystrau i'w gwaredu. | Cabinet<br>30 Ionawr 2023 | Nac ydy | Dirprwy Arweinydd ac Aelod Cabinet dros Gartrefi, Aelod Cabinet dros Wasanaethau Trafnidiaeth, Gwastraff a Seilwaith | Cyfarwyddwr yr Amgylchedd<br><br>Daniel John, Rheolwr Gwasanaethau Amgylcheddol<br>DWJohn@sirgargov.uk |
| CYNLLUN BUSNES 2023/2026 Y CYFRIF REFENIW TAI | Mae Cynllun Busnes y Cyfrif Refeniw Tai yn nodi ein blaenoriaethau a'n gweithgareddau ar gyfer tai cyngor newydd a thai cyngor sy'n bodoli eisoes yn ystod y tair blynedd nesaf. Mae hefyd yn | Cabinet<br>20 Chwefror 2023 | Nac ydy | Dirprwy Arweinydd a'r Aelod Cabinet dros Gartrefi | Cyfarwyddwr Cymunedau<br><br>Rachel M Davies- Rheolwr Strategol Darparu Tai-<br>RaMDavies@sirgar.gov.uk |

| | | | | | |
|---|---|---|---|---|---|
| | pennu ein cyllidebau cyfalaf a refeniw ac yn cadarnhau lefelau rhent i denantiaid. | | | | |
| RHAGLEN GYFALAF BUM MLYNEDD (CRONFA'R CYNGOR) 2023/24 - 2027/28 | Galluogi'r awdurdod i gytuno ar raglen gyfalaf bum mlynedd 2023/24 i 2027/28 | Cabinet<br>20 Chwefror 2023 | Nac ydy | Y Cynghorydd Alun Lenny - Aelod Cabinet | Cyfarwyddwr y Gwasanaethau Corfforaethol<br><br>Randal Hemingway, Pennaeth y Gwasanaethau Ariannol<br>RHemingway@sirgar.gov.uk |
| ADRODDIAD YNGHYLCH RHEOLI'R TRYSORLYS A MONITRO'R DANGOSYDDION DARBODAETH RHWNG 1 EBRILL 2022 A 31 RHAGFYR 2022 | Rhoi'r wybodaeth ddiweddaraf i aelodau am weithgareddau Rheoli'r Trysorlys o 1 Ebrill 2022 hyd at 31 Rhagfyr 2022 | Cabinet<br>27 Chwefror 2023 | Nac ydy | Aelod Cabinet dros Adnoddau | Cyfarwyddwr y Gwasanaethau Corfforaethol<br><br>Anthony Parnell, Rheolwr y Trysorlys a Buddsoddiadau Pensiwn<br>aparnell@sirgar.gov.uk |
| ADRODDIAD MONITRO YNGHYLCH CYLLIDEB REFENIW Y CYNGOR | Rhoi'r wybodaeth ddiweddaraf i'r Cabinet am y sefyllfa gyllidebol fel yr oedd ar 31 Rhagfyr 2022, o ran 2022/23. | Cabinet<br>27 Chwefror 2023 | Nac ydy | Aelod Cabinet dros Adnoddau | Cyfarwyddwr y Gwasanaethau Corfforaethol<br><br>Randal Hemingway, Pennaeth y Gwasanaethau Ariannol |

Yn cael ei diweddaru yn fisol.

| | | | | | |
|---|---|---|---|---|---|
| | | | | | RHemingway@sirgar.gov.uk |
| POLISI A STRATEGAETH RHEOLI'R TRYSORLYS 2023-2024 | Bod y Cyngor yn cymeradwyo'n ffurfiol y Polisi a'r Strategaeth Rheoli'r Trysorlys ar gyfer 2021/22 a'r argymhellion a nodwyd ynddynt. Bod y Cyngor yn cymeradwyo'n ffurfiol Dangosyddion Rheoli'r Trysorlys, y Dangosyddion Darbodus, y Datganiad ynghylch y Ddarpariaeth Isafswm Refeniw, y Strategaeth Fuddsoddi a'r argymhellion a nodwyd ynddynt. | Cabinet<br>27 Chwefror 2023 | Nac ydy | Aelod Cabinet dros Adnoddau | Cyfarwyddwr y Gwasanaethau Corfforaethol<br><br>Anthony Parnell, Rheolwr y Trysorlys a Buddsoddiadau Pensiwn<br>aparnell@sirgar.gov.uk |
| ARDRETHI BUSNES - CYNLLUN RHYDDHAD ARDRETHI AR GYFER MANWERTHU, HAMDDEN A LLETYGARWCH 2023/24 | Ystyried mabwysiadu cynllun rhyddhad ardrethi sydd ar gael i awdurdodau bilio gan Lywodraeth Cymru ar gyfer 2023/24 | Cabinet<br>13 Mawrth 2023 | Nac ydy | Aelod Cabinet dros Adnoddau | Cyfarwyddwr y Gwasanaethau Corfforaethol<br><br>Ann Thomas, Rheolwr y Gwasanaethau Refeniw |
| STRATEGAETH CYLLIDEB REFENIW 2023/24 HYD AT 2025/26 | Galluogi'r Awdurdod i osod ei Gyllideb Refeniw ar gyfer Cronfa'r Cyngor a'r Dreth Gyngor ganlyniadol ar gyfer 2023-24. | Cabinet<br>20 Chwefror 2023<br><br>Cyngor<br>1 Mawrth 2023 | Nac ydy | Y Cynghorydd Alun Lenny - Aelod Cabinet | Cyfarwyddwr y Gwasanaethau Corfforaethol<br><br>Randal Hemingway, Pennaeth y Gwasanaethau |

Yn cael ei diweddaru yn fisol.

| | | | | | |
|---|---|---|---|---|---|
| | | | | | Ariannol<br>RHemingway@sirgar.gov.u<br>k |
| POLISI DIGOLLEDU TENANTIAID | Mae'r adroddiad yn nodi ein dull o ddelio ag achosion pryd y gallai fod yn briodol digolledu tenant sydd wedi dioddef colled neu anghyfleustra oherwydd methiant yn y gwasanaeth.<br><br>Bydd y polisi yn arwain swyddogion wrth ddelio â thenantiaid y cyngor gan sicrhau dull cyson. | Cabinet<br>27 Chwefror 2023 | Nac ydy | Dirprwy Arweinydd a'r Aelod Cabinet dros Gartrefi | Cyfarwyddwr Cymunedau Jonathan Morgan,<br><br>Pennaeth Cartrefi a Chymunedau mwy Diogel<br>JMorgan@sirgar.gov.uk |
| POLISI CODI TÂL AR DENANTIAID | O bryd i'w gilydd efallai y bydd angen codi tâl ar denant am waith yr ydym wedi ei wneud i'r eiddo yr oedd y tenant yn gyfrifol amdano o dan y cytundeb tenantiaeth. Bydd y polisi yn rhoi arweiniad i swyddogion wrth ddelio â chodi tâl ar denantiaid y cyngor, gan sicrhau dull cyson o weithredu. | Cabinet<br>27 Chwefror 2023 | Nac ydy | Dirprwy Arweinydd a'r Aelod Cabinet dros Gartrefi | Cyfarwyddwr Cymunedau Jonathan Morgan,<br>Pennaeth Cartrefi a Chymunedau mwy Diogel<br>JMorgan@sirgar.gov.uk |
| Y WYBODAETH DDIWEDDARAF AM RAGLEN GYFALAF 2022/23 | Darparu'r wybodaeth ddiweddaraf o ran sefyllfa'r gyllideb ar gyfer rhaglen gyfalaf 2022/23 ar 31 Rhagfyr, 2022. | Cabinet<br>27 Mawrth 2023 | Nac ydy | Aelod Cabinet dros Adnoddau | Cyfarwyddwr y Gwasanaethau Corfforaethol |

Yn cael ei diweddaru yn fisol.

| | | | | | |
|---|---|---|---|---|---|
| | | | | | Randal Hemingway,<br>Pennaeth y Gwasanaethau Ariannol<br>RHemingway@sirgar.gov.uk |
| CYMUNEDAU DYSGU CYNALIADWY SIR GAERFYRDDIN | Darparu'r wybodaeth ddiweddaraf i'r Cabinet o ran y cynllun Cymunedau Dysgu Cynaliadwy Sir Gaerfyrddin (a elwid gynt yn Rhaglen Moderneiddio Addysg) fel y strategaeth hirdymor a'r cynllun buddsoddi ar gyfer ysgolion. Bydd y cynllun yn cael ei gyflwyno yn dilyn ymgynghori'n helaeth â rhanddeiliaid. | Cabinet<br>27 Mawrth 2023 | Nac ydy | Aelod Cabinet Dros Addysg a'r Gymraeg | Y Cyfarwyddwr Addysg a Phlant<br><br>Simon Davies, Pennaeth Mynediad i Addysg<br>sidavies@sirgar.gov.uk |
| STRATEGAETH YR ADRAN ADDYSG A GWASANAETHAU PLANT AR GYFER CEFNOGI EIN HYSGOLION A'N LLEOLIADAU ARBENIGOL, GAN GYNNWYS Y RHAI SY'N WYNEBU'R HER FWYAF | Mae'r adroddiad hwn yn amlinellu'r ystod o gefnogaeth wahaniaethol a ddarperir i'n hysgolion, Unedau Cyfeirio Disgyblion a lleoliadau arbenigol sy'n sicrhau bod arweinwyr, athrawon a chynorthwywyr addysgu yn cael mynediad i'r gefnogaeth angenrheidiol i sicrhau bod pob disgybl yn dangos cynnydd ac yn ffynnu. | Cabinet<br>27 Mawrth 2023 | Nac ydy | Aelod Cabinet Dros Addysg a'r Gymraeg | Y Cyfarwyddwr Addysg a Phlant<br><br>Elin Forsyth, Prif Ymgynghorydd Her<br>EMForsyth@sirgar.gov.uk |

| | | | | | |
|---|---|---|---|---|---|
| GWERTHUSO AROLYGIADAU ESTYN AR DRAWS YSGOLION SIR GAERFYRDDIN, UNEDAU CYFEIRIO DISGYBLION A LLEOLIADAU ARBENIGOL. | Mae'r adroddiad hwn yn rhoi gwerthusiad o arolygiadau Estyn dros y bum mlynedd diwethaf, yn amlinellu cryfderau ein hysgolion, Unedau Cyfeirio Disgyblion a'n lleoliadau arbenigol, yn ogystal â rhoi trosolwg o argymhellion er mwyn eu gwella. Yn ogystal, mae'r adroddiad yn amlinellu sut y mae'r adran Addysg a Gwasanaethau Plant yn cefnogi ysgolion cyn arolygiadau Estyn ac ar ôl hynny er mwyn sicrhau bod ein holl ddysgwyr yn dangos cynnydd ac yn ffynnu. | Cabinet<br>11 Ebrill 2023 | Nac ydy | Aelod Cabinet Dros Addysg a'r Gymraeg | Y Cyfarwyddwr Addysg a Phlant<br><br>Elin Forsyth, Prif Ymgynghorydd Her<br>EMForsyth@sirgar.gov.uk |
| YR ADRODDIAD BLYNYDDOL AR GYFER Y CYNLLUN STRATEGOL CYMRAEG MEWN ADDYSG | Daeth Cynllun Strategol Cymraeg mewn Addysg Sir Gaerfyrddin 2022-32 yn weithredol ar 1.9.22. Mae'n ofynnol i'r Awdurdod Lleol gyflwyno adroddiad cynnydd blynyddol i Lywodraeth Cymru. Ystyrir ei fod yn berthnasol i gyflwyno'r adroddiad hwn i'r broses Graffu cyn cyflwyno i Lywodraeth Cymru | Cabinet<br>17 Gorffennaf 2023 | Nac ydy | Aelod Cabinet Dros Addysg a'r Gymraeg | Y Cyfarwyddwr Addysg a Phlant<br><br>Aeron Rees, Pennaeth Cwricwlwm a Llesiant<br>jarees@sirgar.gov.uk |
| ADRODDIAD BLYNYDDOL YNGHYLCH RHEOLI'R TRYSORLYS A DANGOSYDDION | Darparu'r wybodaeth ddiweddaraf i'r aelodau ar weithgareddau rheoli'r Trysorlys ar gyfer 2022-2023 | Cabinet<br>4 Medi 2023 | Nac ydy | Aelod Cabinet dros Adnoddau | Cyfarwyddwr y Gwasanaethau Corfforaethol<br><br>Anthony Parnell, Rheolwr y Trysorlys a Buddsoddiadau |

Yn cael ei diweddaru yn fisol.

| | | | | | |
|---|---|---|---|---|---|
| DARBODAETH 2022/2023 | | | | | Pensiwn<br>aparnell@sirgar.gov.uk |
| Y WYBODAETH DDIWEDDARAF AM RAGLEN GYFALAF 2022/23 | Darparu'r wybodaeth ddiweddaraf o ran sefyllfa y gyllideb ar gyfer rhaglen gyfalaf 2022/23 ar 31 Rhagfyr, 2022. | Cabinet<br>27 Tach 2023 | Nac ydy | Aelod Cabinet dros Adnoddau | Cyfarwyddwr y Gwasanaethau Corfforaethol<br><br>Randal Hemingway, Pennaeth y Gwasanaethau Ariannol<br>RHemingway@sirgar.gov.uk |

Yn cael ei diweddaru yn fisol.